# MUCKERS

## HOLI AC ATEB GYDA'R CAST

**Pwy yw Paloma a Pichón?**
Hwyrach eu bod nhw'n ffrindiau, hwyrach eu bod yn ddwy ochr i'r un person. Mae Caroline (yr awdur) yn dweud bod ganddi fymryn o Pichón a mymryn o Paloma ynddi.

**Sut daeth yr enwau adar i'r stori?**
Hwyrach ei bod a'i wnelo â'r ehedeg! Hwyrach am eu bod yn enwau dymunol. Mae Caroline yn hoff o'r cyferbyniad rhwng turtur wen hardd, osgeiddig a cholomen fach fudr - roedd yn hoff o'r syniad bod modd iddyn nhw fod yn ffrindiau.

**Ers pa hyd rydych chi'n actorion?**
Caroline: Tan oeddwn i'n ddwy ar bymtheg roedd arna i eisiau mynd yn filfeddyg, wedyn trois yn fy ngharn am fy mod yn wastad yn gwneud theatr ac yn sgrifennu yn fy amser rhydd. Gwnes bynciau safon Uwch ychwanegol fel y gallwn i astudio Saesneg yn y Brifysgol, a dewis prifysgol lle gallwn wneud llond gwlad o ddrama myfyrwyr. Wnes i lond gwlad o theatr yno, wedyn mynd i Ysgol Ddrama ym Maris am ddwy flynedd a dechrau gwneud swyddi actio am gyflog mwnci! Ond rwyf wedi rhoi'r gorau i wneud cymaint o actio a bellach mwy o sgrifennu neu wneud piau hi. Yn 2010 wnes i sioe yng Nghaeredin, sef fy narn cyntaf o waith solo.

Patricia: O'm pumlwydd allan byddwn yn cymryd rhan mewn sioeau ysgol, ond roedd arna i eisiau bod yn llawer o bethau nes i mi ymrestru mewn Ysgol Ddrama yn Sbaen pan oeddwn yn ddeunaw oed. Yn wyth ar hugain oed es i Baris i astudio gyda Philippe Gaulier a newidiodd hynny fy ffordd o brofi'r peth actio yma... Mae hynny'n golygu fy mod yn gwneud hyn ers pedair blynedd ar hugain?!? Mae i'w weld yn amser maith ond aeth heibio fel y gwynt! Rwy'n gweithio'n ddi-baid ers 1994, hynny yw pan doedd neb yn fy nghyflogi byddwn yn dyfeisio ffyrdd o wneud prosiectau ar fy liwt fy hun. Erbyn hyn rwy'n rhedeg cwmni yn ogystal â gweithio i bobl eraill.

**Beth yw'r peth gorau ynghylch actio?**
Caroline: Mae yna lond gwlad o bethau tan gamp, fel byw mewn byd sydd heb fod yn real iawn am gryn dipyn o'r amser, sy'n hwyl! Cydweithio â gwahanol bobl ar wahanol brosiectau; cael lle i chwilio cyflwr dyn; pethau sy'n fy nghyfareddu, ac sydd wedyn yn dod yn waith i mi; cysylltu mewn ffordd wirioneddol ddwfn â chynulleidfaoedd os bydd y sioe'n gweithio – waeth be fo'r teimlad (chwerthin, wylo etc).

Patricia: Y chwerthin a'r munudau hyfryd yn y stafell ymarfer ac yn y theatr gyda'r gynulleidfa, a hefyd yr oriau hamdden gyda'r tîm rydych yn gweithio gyda nhw.

**Mae'r cwestiynau yma wedi'u seilio ar gwestiynau ofynwyd i'r cast a'r tîm creadigol gan gynulleidfaoedd prawf yn ystod gwneud y ddrama. Wrth reswm pawb, ym myd lloerig y sioe, dyw pethau ddim bob amser yn glir - maen nhw'n amwys ac yn rhoi lle i'w dehongli.**

**Faint gymerodd hi i chi wneud y ddrama yma?**
Am ba hyd y buoch chi'n ymarfer y ddrama yma? Roedd hi'n dipyn o waith. Mae Caroline wedi sgrifennu llawer o ddrafftiau o'r ddrama ac fe fu yna sawl cyfnod ymarfer, yn ymestyn dros ddwy flynedd. Codwyd y syniad, gweithiwyd arno, wedyn fe'i rhoddwyd o'r neilltu am dipyn, wedyn fe'i codwyd drachefn etc. Ond pe taech chi'n cyfri'r holl amser ac yn ei roi at ei gilydd, mae'n debyg mai tua phum mis fyddai'r cyfanswm – drwy'r dydd, bob dydd – felly tipyn go lew o amser!

**Beth yw'ch hoff ran yn y ddrama?**
Caroline: Hmmm, ddim yn siwr, mae'n newid bob dydd. Mae'r gân pync yn hwyl!

Patricia: Pan fydd Paloma'n helpu toiled I hedfan.

**Lle prynsoch chi'r holl bethau yna (dillad etc)?**
Ym mhob math o lefydd! Chwiliodd Verity (dylunydd y set a'r gwisgoedd) am bethau mewn siopau elusen, ar eBay, mewn marchnadoedd rhad a chanolfannau ailgylchu. Gan fod gofyn iddi brynu tipyn go lew o bethau, aeth i fan lle'r ydych yn talu fesul pwysau yn lle fesul eitem. Roedd hynny'n golygu y gallem gael pentwr anferth o ddillad ar gyfer gwisgo i fyny.

**Pam mae yna gymaint o sôn am pw a'r lle chwech yn y ddrama?** Mae'r ddrama'n chwilio pethau sy'n gwneud i ni deimlo'n annifyr ac yn ein cymell ni i ofyn pam maen nhw'n gwneud i ni deimlo'n annifyr, yn chwithig ac yn rhyfedd. Mae'n gas gan Paloma sôn am pw a'r lle chwech am ei bod yn meddwl bod hynny'n ddifaners. Mae Pichón yn dweud bod gwneud pw yn naturiol a bod pawb yn ei wneud – dim byd i fod â chywilydd ohono. Be ydi'ch barn chi?

**Sawl gwaith rydych wedi gwneud y sioe yma?**
Caroline (Paloma) sgrifennodd y sioe ac mae hefyd yn chwarae Paloma, felly mae hi'n rhan ohoni ers y cychwyn cyntaf. Mae wedi gwneud y sioe droeon lawer, mewn gwahanol lefydd yn amrywio o Madrid, Sbaen i Bath, Lloegr. Chwaraewyd rôl Pichón gan wahanol actorion. Maen nhw wedi gwneud y sioe lai o weithiau na Caroline, ond tipyn go lew er hynny! Mae Muckers yn cael ei pherfformio sawl gwaith mewn un oedfan, yn aml fwy nag unwaith y diwrnod.

**Faint o amser mae'n ei gymryd i actor gofio sgript?**
Hydoedd! Mae Patricia a Caroline (yr actorion) yn gorfod gweithio nerth deg ewin i gofio popeth. Dyna'r rhan waethaf o'r gwaith, meddai Caroline, ond drwy lwc mae'r rhannau eraill yn gampus, felly mae hynny'n gwneud iawn amdano.

**Be ysbrydolodd chi i wneud y sioe yma? Pam ddewisoch chi'r stori yma?**
Roedd gan Caroline ddiddordeb mewn gwneud drama oedd yn chwilio rheolau a gwneud y peth iawn, ond hefyd yn cynnwys antur fawr.

**Pam benderfynoch chi wneud sioe yn Sbaeneg ac yn Saesneg?**
Mae yna sawl rheswm: roedd Caroline yn treulio cryn dipyn o amser ym Madrid pan ofynodd the egg theatre (yn Lloegr) iddi a oedd arni eisiau gwneud drama i blant. Roedd chwilio dau ddiwylliant a dwy iaith yn golygu rhagor o wiriondeb – gallem gyferbynu pethau Sbaenaidd iawn, fel dawnsio flamenco angerddol, â phethau Seisnig iawn...fel bechdanau marmit. Fwyfwy, rydym o'r farn ei bod yn bwysig i wahanol ddiwylliannau ac ieithoedd gydweithio â'i gilydd. Gallwn ddysgu cymaint gan ein gilydd. Mae'n hwyl arbrofi i weld all rhywbeth weithio mewn gwahanol ieithoedd. Ar hyn o bryd rydym yn byw mewn byd lle mae yna leilai o hynny, ac mae'n bwysig ein bod yn gwneud y cysylltiadau hynny yn lle codi waliau.

**Be oedd y peth anoddaf ynghylch gwneud y sioe yma?**
Mae yna bethau ymarferol sy'n anodd, fel dysgu llinellau a chofio popeth mae gofyn ei wneud ar lwyfan, a phethau emosiynol anodd, fel treulio cryn dipyn o amser yn meddwl am be sy'n gwneud i ni deimlo'n fach, yn dwp ac mewn cywilydd. Mae meddwl am y pethau yma'n gallu bod yn anodd ac yn annifyr. Pan oeddem yn gwneud y ddrama roeddem yn ceisio cadw'r ddysgl yn wastad rhwng y munudau astrus yma o dywyllwch a munudau o ysgafnder – dyna pam roeddem am gynnwys llond gwlad o chwarae a gwiriondeb hefyd.

**Pam mae Paloma yn rhoi'r gorau i chwarae gyda Pichón?**
Pan fo Paloma a Pichón yn chwarae, yn sydyn mae Big Luz yn ymddangos a Paloma'n teimlo'i hun wedi'i hoelio gan y golau. Mae'n teimlo fel petai Big Luz yn ei gwylio – yn taflu sbotolau arni y mae'n methu dianc rhagddo. Mae'n teimlo'n gas ond yn meddwl, os gorfoda Pichón i adael, y gall reoli popeth a gwneud i bethau deimlo'n well.

**Beth yw Big Luz? Beth yw nod Big Luz?**
Meddai bachgen oedd yn gwylio'r sioe pan oeddem yn ei ymarfer ei fod yn meddwl mai da o beth oedd i Big Luz fod yn dipyn o ddirgelwch. Mae gan wahanol bobl wahanol farn ynghylch pwy neu beth yw Big Luz. Awgrymodd un ferch fod Big Luz yn amlygu'r bobl sydd heb fod yn bihafio na'n dilyn y rheolau. Roedd rhywun arall yn meddwl mai nod Big Luz oedd gwneud y byd yn wastad ac ymorol bod pawb yn 'cymathu'. Meddai eraill fod Big Luz fel giaffar mawr a bwli. Mae'r sbotolau, meddai Caroline, yn gwneud iddi deimlo'ch bod wedi gwneud rhywbeth o'i le, hyd yn oed os nad ydych yn hollol siwr be rydych wedi'i wneud. Yn y ddrama, mae Paloma'n dysgu sut i herio Big Luz.

**Pam anfonwyd Paloma i fyd arall?**
Mewn ffordd, Paloma sy'n ei hanfon ei hun i fyd arall pan orfoda Pichón i adael llonydd iddi. Pan ymddangosa Big Luz, mae Paloma'n teimlo bod rhaid iddi ymddwyn yn wahanol. Mae hi'n meddwl, os caiff hi wared â Pichón, y bydd pethau'n gwella am na fydd y mwrddrwg (Pichón) ddim bellach ar hyd y lle. Ond dyw pethau ddim cyn hawsed â hynny...

**Be oedd diben y byd?**
Roedd Caroline am i'r ddrama gynnwys ymdeimlad o antur, ac roedd hi'n bwysig i Paloma fynd ar daith. Pan ymddangosa Big Luz, mae yna newid yn sut mae Paloma'n teimlo, a ddangosir yn rhannol drwyddi'n mynd i fyd arall. Mae gofyn iddi geisio cael pen y ffordd allan o'r byd yma er mwyn herio Big Luz o'r diwedd. Pwy oedd y bobl y cyfarfu â nhw? Mae Paloma'n cyfarfod llond gwlad o wahanol gymeriadau rhyfedd a rhyfeddol ar ei thaith. Mae llawer o'r cymeriadau mae'n eu cyfarfod yn dal i ddweud wrthi be ddylai a be na ddylai'i wneud, sut y dylai fod, a pha reolau y dylai eu dilyn. Mae cymeriadau eraill yn ei helpu i ddeall na does dim rhaid iddi fod yn ferch dda drwy'r amser, a'i bod yn ddigon da fel ag y mae hi. Maen nhw braidd yn syfrdanol (fel y bin sy'n siarad a'r toiled sy'n hedfan!) ond, yn y diwedd, maen nhw'n helpu Paloma i gael pen llinyn ar rai pethau.

**Pam mae gan Paloma gyfrinachau?**
Ar ddechrau'r ddrama mae Paloma'n meddwl bod rhaid iddi fod yn berffaith a chuddio'r rhannau gwaethaf ohoni'i hun – y pethau sy'n codi cywilydd arni. Y rhain yw ei chyfrinachau. Dim ond liw nos mae hi'n adrodd ei chyfrinachau wrthym (gefn nos yw'r amser gorau i gyfrinachau, meddai Pichón). Mae hi'n ei chael hi'n arw (cyfarfod Big Luz etc) cyn teimlo'n barod i adrodd y cyfrinachau yma wrthym.